Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Oed Gwerthu Cynhyrchion Anadlu Nicotin

## Ymgynghoriad ar y rheoliadau arfaethedig sydd i'w gwneud o dan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014

## Cynnwys

1. Diben yr ymgynghoriad hwn ........ 4
2. Cefndir ........ 6
3. Manylion y rheoliadau arfaethedig ........ 10
4. Cwmpas tiriogaethol y rheoliadau ........ 12
5. Asesu’r effaith ........ 12
6. Sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ........ 13
7. Datganiad o gysylltiadau uniongyrchol neu anuniongyrchol â’r diwydiant tybaco gan ymatebwyr ........ 14
8. Y camau nesaf ........ 14
9. Sylwadau am y broses ymgynghori ei hun ........ 14
10. Cyfrinachedd gwybodaeth ........ 15

Atodiad A ........ 16

Atodiad B ........ 19

# 1. Diben yr ymgynghoriad hwn

1.1 Diben yr ymgynghoriad hwn yw casglu safbwyntiau ar reoliadau drafft i gyflwyno isafswm oed, fel na chaniateir gwerthu cynhyrchion anadlu nicotin, megis sigaréts electronig (a elwir hefyd yn e-sigaréts) a rhannau cysylltiedig dyfeisiau o'r fath, i bobl ifanc o dan 18 oed.

1.2 Gan fod e-sigaréts wedi ymddangos yn y blynyddoedd diwethaf, ac o ystyried pryderon bod plant yn fwy ymwybodol o'r cynhyrchion hyn a bod mwy ohonynt yn eu defnyddio, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i osod gofyniad o ran oed gwerthu ar gyfer y cynhyrchion hyn. Mae Adran 92 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 ("y Ddeddf") yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i gyflwyno lleiafswm oed ar gyfer gwerthu cynhyrchion nicotin.

1.3 Ystyr 'cynnyrch anadlu nicotin' at ddibenion y rheoliadau arfaethedig yw unrhyw ddyfais sydd â'r bwriad o alluogi rhywun i anadlu nicotin drwy'r geg. Mae'n cwmpasu e-sigaréts (rhai untro a rhai y gellid eu defnyddio eto) a rhannau penodol o'r cynnyrch fel cetris ail-lenwi nicotin a sylweddau ail-lenwi nicotin, a elwir yn aml yn 'e-hylifau'.

1.4 Ni fyddai'r rheoliadau arfaethedig yn berthnasol i gynhyrchion tybaco, gan fod cyfreithiau oed gwerthu eisoes yn bodoli. Gan y byddai'r rheoliadau'n berthnasol i gynhyrchion anadlu nicotin yn unig, ni fyddent yn cynnwys cynhyrchion eraill y mae nicotin yn bresennol ynddynt yn naturiol, fel mathau penodol o ffrwythau a llysiau. Er hynny, mae'r pwerau i wneud rheoliadau yn galluogi'r Llywodraeth i wneud darpariaeth yn y dyfodol ar gyfer cynhyrchion eraill sy'n darparu nicotin, a allai ymddangos ymhen amser.

1.5 Amcanion y rheoliadau arfaethedig fyddai:

- cyfyngu gwerthiant cynhyrchion anadlu nicotin fel e-sigaréts i oedolion yn unig, gyda rhai eithriadau penodol ar gyfer cynhyrchion meddyginiaethol
- amddiffyn plant rhag y perygl o ddod yn gaeth i nicotin a'r effaith y mae nicotin yn gallu ei chael ar ddatblygiad ymennydd y glasoed
- amddiffyn plant a phobl ifanc rhag unrhyw bosibilrwydd y gallai cynhyrchion anadlu nicotin fod yn 'borth' sy'n peri iddynt ddechrau ysmygu tybaco

1.6 Byddai'r rheoliadau arfaethedig yn:

- ei gwneud yn drosedd i werthu cynhyrchion anadlu nicotin (fel e-sigaréts) a chynhyrchion cysylltiedig i unrhyw un o dan 18 oed
- ehangu'r drosedd o 'brynu ar ran' mewn cysylltiad â thybaco yn y Ddeddf i gynnwys e-sigaréts hefyd, felly byddai'n drosedd hefyd i oedolyn brynu cynhyrchion anadlu nicotin ar ran rhywun o dan 18 oed
- eithrio gwerthiant unrhyw gynnyrch anadlu nicotin sydd wedi ei drwyddedu fel meddyginiaeth, pan fo'r plentyn wedi ei gael ar bresgripsiwn neu pan fo'r feddyginiaeth wedi ei nodi i'w defnyddio gan blant

1.7 Ceir esboniad mwy manwl o’r rheoliadau arfaethedig yn adran 3.

1.8 Bydd y rheoliadau arfaethedig ar gyfer oed gwerthu yn yr ymgynghoriad hwn yn berthnasol i Gymru a Lloegr, ar yr amod bod Gweinidogion Cymru yn rhoi’r caniatâd angenrheidiol.

1.9 Mae’r Llywodraeth yn bwriadu bwrw ymlaen i gyflwyno rheoliadau i osod oed gwerthu ar gyfer cynhyrchion anadlu nicotin. Mae’r ymgynghoriad hwn yn casglu safbwyntiau ynglŷn â manylion y rheoliadau arfaethedig er mwyn gallu ystyried adborth gan y bobl hynny sydd â buddiant cyn penderfynu ar fanylion terfynol y rheoliadau. Bydd Senedd y DU yn ystyried y rheoliadau cyn y gellir eu gwneud.

1.10 Rydym yn ceisio safbwyntiau ynglŷn â’r rheoliadau arfaethedig yn **Atodiad** A ac ymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad yn **Atodiad** B.

1.11 Rydym hefyd yn ceisio safbwyntiau ar ein hasesiad cychwynnol ar yr effaith ar fusnes a’r dadansoddiad cydraddoldeb a gyhoeddir gyda’r ddogfen ymgynghori hon.

# 2. Cefndir

2.1 I grynhoi, mae'r Llywodraeth yn cyflwyno cyfyngiad ar oed gwerthu oherwydd y canlynol:

- dylid amddiffyn plant rhag y perygl o ddod yn gaeth i nicotin;
- gall y defnydd o nicotin ymhlith y glasoed newid datblygiad yr ymennydd;
- mae plant yn dod yn fwy ymwybodol o e-sigaréts ac mae mwy ohonynt yn eu defnyddio;
- gall e-sigaréts fod yn apelgar i blant;
- nid ydym yn gwybod yn iawn a yw e-sigaréts yn gweithredu fel 'porth' gan beri i blant ddechrau defnyddio tybaco;
- nid ydym yn gwybod pa effaith y mae e-sigaréts yn ei chael ar ddatblygiad ysgyfaint plant;
- mae'r Llywodraeth yn dymuno diddymu unrhyw ansicrwydd sy'n bodoli ar hyn o bryd ynglŷn ag oed gwerthu, a darparu canllawiau eglur a chyson i gynorthwyo gwneuthurwyr a manwerthwyr.

2.2 Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod gwneuthurwyr cyfrifol eisoes yn argymell mai oedolion yn unig ddylai ddefnyddio eu cynhyrchion. Mae manwerthwyr cyfrifol eisoes yn atal plant rhag cael gafael ar e-sigaréts. Er hyn, nid yw pob un yn gwneud hynny. Mae nifer o wneuthurwyr a manwerthwyr e-sigaréts wedi galw am gyflwyno lleiafswm oed gwerthu.

2.3 I gynorthwyo manwerthwyr i weithredu gofynion oed gwerthu ar gyfer cynhyrchion anadlu nicotin, mae'r rheoliadau arfaethedig wedi eu datblygu i fod yn gyson â gofynion oed ar gyfer gwerthu cynhyrchion tybaco a chynhyrchion eraill â chyfyngiad oed arnynt.

## E-sigaréts

2.4 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r farchnad ar gyfer e-sigaréts wedi datblygu'n gyflym. Erbyn heddiw, mae amrywiaeth eang o wahanol fathau a brandiau o e-sigaréts ar y farchnad.

2.5 Yn ôl adroddiad ar e-sigaréts a gomisiynwyd gan Public Health England (PHE), dyfeisiwyd e-sigaréts yn Tsiena yn 2003 i roi dos o nicotin anwedd i'w anadlu. Cyflwynwyd e-sigaréts i Ewrop am y tro cyntaf tua 2005 ac maent wedi dod yn gynyddol boblogaidd ers hynny. Mae'r cynhyrchion wedi esblygu'n sylweddol.[1] Mae Action on Smoking and Health (ASH) yn disgrifio e-sigaréts fel a ganlyn:

> *Electronic cigarettes, also known as vapourisers or electronic nicotine delivery systems (ENDS), are often, although not always, designed to look and feel like cigarettes. They have been marketed as less harmful alternatives to cigarettes and for use in places where smoking is not permitted since they do not produce smoke.*

*There are three main types of electronic cigarettes or vapourisers:*

- *Disposable products (non-rechargeable)*
- *An electronic cigarette kit that is rechargeable with replaceable pre-filled cartridges*
- *An electronic cigarette that is rechargeable and has a tank or reservoir which has to be filled with liquid nicotine*

*The first two types of electronic cigarette are often known as "cigalike" products as they resemble cigarettes and often have a light at the end that glows when the user draws on the device to resemble a lit cigarette.*[2]

2.6 Mae'r rhan fwyaf o'r e-sigaréts sydd ar y farchnad â blas ynddynt. Mae amrywiaeth eang o flasau o e-sigaréts ar gael, a gallai rhai ohonynt fod yn ddeniadol i blant (e.e. blas cola ceirios, siocled gwyn, gwm swigod, hufen ia fanila, diod egni a losin siâp arth).

## Cynhyrchion trwyddedig

2.7 Ni chaniateir marchnata cynhyrchion anadlu nicotin fel cymorth i roi'r gorau i ysmygu oni bai eu bod wedi eu trwyddedu fel meddyginiaeth gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd.[3] Er bod nifer o gwmnïau e-sigaréts wedi dweud yn gyhoeddus eu bod wedi cyflwyno, neu y byddant yn cyflwyno, cais am drwydded feddyginiaethol ar gyfer eu cynhyrchion, ar hyn o bryd, dyfarnwyd trwydded i ddau gynnyrch yn unig a fyddai'n bodloni'r diffiniad o gynhyrchion anadlu nicotin: *Voke* a *Nicorette Inhalator.*

2.8 Byddai cynnyrch anadlu nicotin sy'n cael ei reoleiddio fel meddyginiaeth, er enghraifft therapi disodli nicotin, ar gael i'w werthu i blant o dan 18 oed os (a) y caiff ei werthu'n unol â phresgripsiwn dilys (ni waeth beth yw ei ddosbarthiad) neu (b) bod awdurdodiad marchnata meddyginiaeth y cynnyrch yn nodi ei fod yn briodol i gael ei ddefnyddio gan bobl o dan 18 oed.

2.9 Mae meddyginiaethau trwyddedig yn ddarostyngedig i reolau rheoleiddio ar wahân sy'n ymdrin ag agweddau fel hysbysebu, cyflwyniad y cynnyrch, i bwy y ceir cyflenwi'r feddyginiaeth ac agweddau eraill yn ymwneud â gwerthu a chyflenwi.

## Defnyddio e-sigaréts

2.10 Mae e-sigaréts yn dod yn gynyddol boblogaidd ac maent yn cael eu hyrwyddo'n eang bellach. Mae ASH yn amcangyfrif bod tua 2.1 milliwn o oedolion ym Mhrydain ar hyn o bryd yn defnyddio sigaréts electronig, o gymharu â 700,000 o ddefnyddwyr yn 2012.[4] Er nad yw'n beth cyffredin iawn i bobl o dan 18 oed yng Nghymru a Lloegr ddefnyddio'r cynhyrchion hyn, mae tystiolaeth ryngwladol yn awgrymu ei bod yn debygol y gallai'r defnydd o e-sigaréts gynyddu ymhlith pobl ifanc.

2.11 Mae tystiolaeth sy'n ymddangos yn awgrymu bod plant ym Mhrydain yn ymwybodol iawn o e-sigaréts. Canfu adroddiad a gomisiynwyd gan Public Health England ynglŷn â'r defnydd o e-sigaréts a marchnata bod dau o bob tri (66%) o bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed ym Mhrydain wedi clywed am e-sigaréts. Roedd tua 7% wedi rhoi cynnig ar e-

sigaréts o leiaf unwaith a dywedodd 2% eu bod yn eu defnyddio weithiau neu'n aml. Canfu astudiaeth ar wahân fod dros ddwy ran o dair o blant yng Nghymru yn dweud eu bod wedi clywed am e-sigaréts.[5] Mewn astudiaeth a gynhaliwyd ymhlith plant yn Swydd Gaer a Glannau Mersi, roedd yr holl blant a gymerodd ran wedi clywed am e-sigaréts neu'n gwybod beth oeddynt. Canfu'r astudiaeth hon hefyd:

> *There was an overwhelming sense across all groups that the majority of young people who do use e-cigarettes do so not for the benefits proposed by those who produce and market these products (e.g. for health benefits, to save money, to allow users to intake nicotine in locations where tobacco smoking is prohibited), but simply "for the sake of it", to fit in with or impress their peers, or to portray a certain desired image of themselves.*[6]

2.12 Mae'n debygol bod ymgyrchoedd hyrwyddo e-sigaréts yn rheswm allweddol pam mae nifer fawr o blant a phobl ifanc yn ymwybodol o'r cynhyrchion hyn. Mae e-sigaréts ar gael i'w prynu mewn amrywiaeth eang o siopau, gan gynnwys archfarchnadoedd, siopau papur newydd, siopau arbenigol a fferyllfeydd, ac yn aml cânt eu harddangos a'u hyrwyddo'n amlwg yn y siopau hyn. Mae cwmnïau e-sigaréts yn cystadlu o ran prisiau ac yn buddsoddi mewn ymgyrchoedd marchnata a hyrwyddo, gan gynnwys trwy gyfryngau cymdeithasol fel Twitter.[7] Caiff e-sigaréts eu hysbysebu'n eang, ac mae hyn yn peri pryder i rai pobl.

2.13 Mae'r Llywodraeth yn cydnabod na fydd gwneuthurwyr e-sigaréts cyfrifol yn ceisio marchnata e-sigaréts yn benodol ar gyfer plant. Fodd bynnag, er bod cwmnïau e-sigaréts yn cynllunio llawer o'u gweithgarwch hyrwyddo er mwyn cyrraedd oedolion, mae perygl y bydd y gwaith hyrwyddo hwn hefyd yn effeithio ar bobl ifanc. Mae pobl ifanc hefyd yn gweld y marchnata cynyddol ar gynhyrchion e-sigaréts mewn siopau, a gellid credu y bydd y cynhyrchion hyn yn dod yn fwy deniadol wrth i'r gweithgarwch marchnata e-sigaréts mewn siopau ddod yn fwy amlwg.

## Cysylltiad ag ysmygu tybaco

2.14 Er bod cysylltiad cryf ar hyn o bryd rhwng y defnydd o e-sigaréts gan blant a phrofiad o ysmygu tybaco eisoes, mae ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru yn darparu rhywfaint o dystiolaeth betrus y gallai plant fod yn defnyddio e-sigaréts fel ffordd newydd o arbrofi â nicotin.[5] Gallai e-sigaréts fod yn fwy cyffredin ymhlith plant 10 i 11 nag ysmygu. Mae tua 6% o'r plant yn y grŵp hwn yn nodi eu bod wedi defnyddio e-sigarét ar ryw adeg, o gymharu â 2% a oedd yn nodi eu bod wedi ysmygu ar ryw adeg. Canfu ymchwil yn Swydd Gaer a Glannau Mersi fod pobl ifanc yn ystyried e-sigaréts fel cynnyrch ar eu pennau eu hunain, yn hytrach nag yn ddewis arall yn lle ysmygu tybaco. Mae'r ymchwil hon yn awgrymu bod llawer o bobl ifanc yn dweud eu bod yn defnyddio e-sigaréts "oherwydd eu bod yn teimlo 'pam lai'", "am hwyl", neu i "roi cynnig ar rywbeth newydd", a'r prif bwyslais i bobl ifanc oedd gwahanol flasau a dyluniadau'r e-sigaréts a'r cyfle i ddefnyddwyr addasu eu dyfeisiau a'u gwneud yn wahanol i rai pobl eraill. Daeth yr ymchwilwyr i'r casgliad y gallai e-sigaréts fod yn fodd mwy apelgar a haws, o ystyried eu dyluniadau lliwgar a'r amrywiaeth o flasau, i bobl ifanc nad ydynt efallai'n hoff o flas neu deimlad sigaréts tybaco arbrofi gyda nicotin.[8] Mae e-sigaréts yn debygol o fod yn haws eu defnyddio na sigaréts arferol.

2.15 Yn ei Hadroddiad Blynyddol yn 2013, mae Prif Swyddog Meddygol Lloegr yn mynegi pryder y gallai e-sigaréts fod yn bwynt mynediad i rai pobl ifanc i ddechrau defnyddio cynhyrchion tybaco confensiynol, gan gynnwys sigaréts.[9] Gan nad oes unrhyw astudiaethau hydredol wedi eu cynnal i archwilio a yw e-sigaréts yn gweithredu fel porth i ddefnyddio tybaco, ni allwn fod yn siŵr ar hyn o bryd a yw'r defnydd o e-sigaréts yn arwain at ysmygu tybaco, ac mae angen mwy o ymchwil i ateb y cwestiwn yn derfynol. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi argymell yn ddiweddar na ddylid gwerthu e-sigaréts i bobl ifanc dan oed.

## Effeithiau nicotin

2.16 Rydym yn gwybod ers amser maith ei bod yn hawdd iawn mynd yn gaeth i nicotin. Mae nicotin yn gyffur cryf y mae pobl yn mynd yn gaeth iddo'n rhwydd iawn, ac mae bump i ddeg gwaith cryfach na chocên neu forffin o ran creu effeithiau ymddygiadol a seicolegol sy'n gysylltiedig â'r posibilrwydd y gallai pobl ddod yn gaeth i gyffur.[10] Mae'r llywodraeth yn dymuno amddiffyn plant a phobl ifanc rhag dod yn gaeth i unrhyw sylwedd, yn enwedig y rhai hynny a allai fod yn niweidiol.

2.17 Gall pobl ifanc ddatblygu dibyniaeth ar nicotin yn gyflym. Wrth gael nicotin trwy ysmygu tybaco, gall symptomau ddatblygu'n fuan ar ôl i berson ifanc ysmygu ei sigarét gyntaf. Yn aml, nid yw defnyddwyr newydd yn adnabod y symptomau y maent yn eu profi fel rhai sy'n gysylltiedig â dibyniaeth ar nicotin.[11] Mae ymchwil yn dangos bod ymennydd plant yn parhau i ddatblygu yn ystod cyfnod y glasoed a'i fod yn gwbl wahanol i ymennydd oedolyn. Un o'r gwahaniaethau yw bod y glasoed yn fwy sensitif i effeithiau gwobrwyol nicotin, a gallai hyn esbonio pam mae llawer o bobl ifanc yn dechrau ysmygu yn ystod y glasoed.[12] Mae Dutra et al hefyd yn disgrifio effaith nicotin, wedi ei ddarparu gan e-sigaréts, ar ymennydd y glasoed.

> *Although e-cigarettes deliver many fewer toxins and at much lower levels than conventional cigarettes, they contain nicotine, a highly addictive substance, in doses designed to mimic cigarettes. Animal models suggest that, through its effect on cholinergic pathways, nicotine may have permanent effects on the brain and behaviour such as dysregulation of the limbic system, which can lead to long-term difficulties with behavioural regulation, attention, memory, and motivation, among other functions. The adolescent human brain may be particularly vulnerable to the effects of nicotine because it is still developing.*[13]

# 3. Manylion y rheoliadau arfaethedig

3.1 Byddai Rheoliadau'n cael eu gwneud yn unol ag Adran 92 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (y Ddeddf).[14] Nodir y rheoliadau arfaethedig yn **Atodiad** A a dylid eu darllen ar y cyd â'r Ddeddf.

## Diffinio cynhyrchion anadlu nicotin

3.2 Bydd y lleiafswm oed gwerthu o 18 oed yn berthnasol i 'gynhyrchion anadlu nicotin'. Mae'r diffiniad hwn yn cwmpasu pob dyfais e-sigaréts (gan gynnwys mathau untro a mathau y gellir eu hailwefru) a'r deunyddiau ail-lenwi (fel cetris ail-lenwi wedi eu llenwi'n barod a hylifau). O fewn y rheoliadau arfaethedig, mae 'dyfais anadlu nicotin' yn cynnwys unrhyw ddyfais sy'n galluogi rhywun i anadlu nicotin drwy'r geg. Ni fyddai ots a yw'r ddyfais yn edrych fel sigarét arferol neu a yw ar ffurf wahanol, os yw'r ddyfais yn bodloni'r diffiniad arfaethedig. Mae'r rheoliadau'n cwmpasu'r holl gynhyrchion anadlu nicotin, sut bynnag y cânt eu pweru. Byddai dyfeisiau 'dau ddefnydd' y gellid eu hail-lenwi â hylif nicotin neu hylif nad yw'n cynnwys nicotin hefyd yn ddarostyngedig i'r gofynion oed gwerthu.

3.3 Nid yw rhai e-sigaréts yn edrych fel sigaréts tybaco arferol ac maent yn cynnwys cronfa neu danc sydd wedi ei gynllunio i gael ei lenwi â hylif propylen glycol. Gellir gwerthu'r hylifau hyn ar wahân a gallant gynnwys nicotin neu beidio. Er nad yw rhai dyfeisiau, ar adeg eu gwerthu, yn cynnwys nicotin, byddai'r rheoliadau arfaethedig yn eu cwmpasu os mai eu bwriad yw galluogi rhywun i anadlu nicotin i mewn trwy'r geg.

3.4 Nid yw'r llywodraeth yn bwriadu i'r rheoliadau arfaethedig gynnwys rhannau cyfansoddol fel batris, dyfeisiau gwefru a gwifrau trydanol ar gyfer cynhyrchion anadlu nicotin.

## Cynhyrchion meddyginiaethol neu ddyfeisiau meddygol

3.5 Mae'r rheoliadau'n darparu eithriadau ar gyfer unrhyw gynhyrchion anadlu nicotin sydd wedi eu trwyddedu fel meddyginiaeth gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaeth a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA). Gellir darparu cynhyrchion anadlu nicotin sydd wedi eu trwyddedu fel meddyginiaeth i blant a phobl ifanc o dan 18 oed ar bresgripsiwn. Mae'r rheoliadau drafft hefyd yn cynnig eithriad ar gyfer unrhyw gynhyrchion anadlu nicotin y nodwyd eu bod wedi eu bwriadu i'w defnyddio gan bobl o dan 18.

3.6 Byddai Rheoliad 4 yn eithrio gwerthiant cynhyrchion anadlu nicotin sy'n feddyginiaethau neu'n ddyfeisiau meddygol ac sy'n cael eu gwerthu yn unol â phresgripsiwn dilys gan fferyllydd (neu o dan yr amgylchiadau prin eraill pryd y gellid gwerthu meddyginiaethau sydd ar gael ar bresgripsiwn yn unig). Byddai Rheoliad 5 yn eithrio, o'r gofyniad oed gwerthu, werthiant unrhyw gynhyrchion anadlu nicotin sy'n feddyginiaethau awdurdodedig â thrwydded fel meddyginiaeth heb bresgripsiwn sy'n nodi eu bod wedi'u bwriadu ar gyfer trin pobl o dan 18 oed. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl na fydd angen i'r gwerthwr fod yn fferyllydd, oherwydd y ceir gwerthu meddyginiaethau ar y rhestr gwerthiant cyffredinol mewn unrhyw fath o siop, cyn belled â bod amodau penodol yn cael eu bodloni.

3.7 Byddai plant o dan 18 oed sy'n ceisio rhoi'r gorau i ysmygu yn parhau i allu cael cynhyrchion anadlu nicotin sydd wedi eu trwyddedu fel meddyginiaethau trwy bresgripsiwn, felly byddai'r cynnyrch yn cael ei ddefnyddio o dan oruchwyliaeth feddygol. Fel y sefyllfa bresennol, byddai rhywun o dan 18 oed yn dal i allu prynu cynhyrchion anadlu nicotin penodol, fel y *Nicorette Inhalator*, mewn siop papur newydd neu archfarchnad, os yw awdurdodiad marchnata'r feddyginiaeth yn nodi ei bod yn addas i gael ei defnyddio gan blant o dan 18 oed.

3.8 Nid yw'r rheoliadau hyn yn cwmpasu mathau eraill o feddyginiaeth therapi disodli nicotin nad ydynt wedi eu bwriadu i alluogi rhywun i anadlu nicotin trwy'r geg, er enghraifft gwm a phatsys nicotin.

## Prynu e-sigaréts ar ran rhywun

3.9 Byddai'r rheoliadau'n ymestyn y drosedd bresennol o brynu cynhyrchion tybaco ar ran rhywun o dan 18 (Adran 91 o'r Ddeddf) i gwmpasu cynhyrchion anadlu nicotin.

3.10 Byddai hyn yn ei gwneud yn drosedd i oedolyn brynu, neu geisio prynu, cynnyrch anadlu nicotin ar ran plentyn o dan 18 oed, oni bai bod gan y plentyn bresgripsiwn ar ei gyfer. Byddai hyn yn sicrhau bod prynu cynhyrchion anadlu nicotin fel e-sigaréts yn cyd-fynd â throseddau cyfatebol ar gyfer prynu tybaco ac alcohol ar ran rhywun o dan 18 oed a byddai'n gwneud y sefyllfa'n gyson ac yn eglur i fanwerthwyr.

3.11 Gallai'r drosedd o brynu ar ran rhywun hefyd fod yn berthnasol i rai cynhyrchion anadlu nicotin sydd wedi eu trwyddedu fel meddyginiaeth. Er enghraifft, pan oedd cynnyrch wedi ei drwyddedu fel meddyginiaeth heb bresgripsiwn (h.y. fel meddyginiaeth rhestr gwerthiant cyffredinol) a'i fod wedi ei nodi i'w ddefnyddio gan bobl dros 18 oed yn unig, byddai'n drosedd i rywun brynu, neu geisio prynu, y cynnyrch hwn ar ran plentyn o dan 18 oed.

3.12 Fel yn achos y drosedd ar gyfer tybaco, yr oedolyn sy'n prynu ar ran y plentyn a fyddai'n troseddu, nid y gwerthwr.

## Troseddau a chosbau

3.13 Mae'r Ddeddf yn nodi'r cosbau a fyddai'n berthnasol ar gyfer trosedd o dan y rheoliadau oed gwerthu neu brynu ar ran rhywun. Byddai rhywun nad yw'n cydymffurfio â'r gyfraith yn cyflawni trosedd.

### Oed gwerthu

3.14 O dan y rheoliadau arfaethedig, byddai'n drosedd i rywun werthu cynnyrch anadlu nicotin i blentyn o dan 18 oed.

3.15 O dan Adran 91(5) o'r Ddeddf, byddai rhywun a geir yn euog o drosedd yn agored, ar ôl cael collfarn ddiannod, i dderbyn dirwy nad yw'n fwy na lefel 4 ar y raddfa safonol.[15] Mae hyn yn gyson â'r gosb bresennol ar gyfer gwerthu tybaco i bobl o dan 18 oed.

3.16 Mae Adran 93 o’r Ddeddf yn cynnwys gwerthu cynhyrchion anadlu nicotin yn y drefn orfodi bresennol ynglŷn â gwerthu tybaco’n fynych i blant. Gallai unigolyn neu fusnes y canfyddir ei fod yn gwerthu cynhyrchion anadlu nicotin yn gyson i bobl o dan 18 oed gael Gorchymyn Gwerthu Cyfyngedig neu Orchymyn Safle Cyfyngedig gan y llys. Mae gorchymyn o’r fath yn gwahardd unigolyn penodedig, neu siop fanwerthu, rhag gwerthu cynhyrchion anadlu nicotin na thybaco i neb am gyfnod o hyd at flwyddyn.

3.17 Mae Adran 92(4) o’r Ddeddf yn darparu ar gyfer amddiffyniad lle y gall y gwerthwr ddangos ei fod wedi cymryd pob cam rhesymol er mwyn osgoi cyflawni’r drosedd.

### Prynu ar ran rhywun

3.18 Yr oedolyn sy’n prynu, neu’n ceisio prynu, cynnyrch anadlu nicotin, yn ôl diffiniad y rheoliadau, ar ran plentyn o dan 18 oed fydd yn cyflawni’r drosedd. Mae’r Llywodraeth yn cynnig y gallai swyddogion gorfodi gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig i unigolyn sy’n cyflawni’r drosedd o brynu cynhyrchion anadlu nicotin ar ran plentyn o dan 18 oed. Swm y gosb benodedig arfaethedig yw £90 (£60 os y’i telir cyn pen 15 diwrnod), sy’n gyson â’r drosedd o brynu alcohol ar ran plentyn o dan 18 oed. Gallai rhywun sy’n derbyn Hysbysiad Cosb Benodedig ddewis yn hytrach gael llys i ymdrin â’r mater. Gallai rhywun sy’n gwrthod talu neu nad yw’n talu Hysbysiad Cosb Benodedig hefyd gael ei gyfeirio at y llys.

## Gorfodi

3.19 Swyddogion safonau masnach awdurdodau lleol fyddai’n gyfrifol am orfodi’r rheoliadau arfaethedig, a gallent gael cymorth gan yr heddlu yn ôl yr angen.

3.20 I hwyluso gwaith gorfodi effeithiol a chyson, byddai Rheoliad 6 yn dod â’r drosedd oed gwerthu ar gyfer cynhyrchion anadlu nicotin o fewn cwmpas y Cynllun Awdurdod Sylfaenol. Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â’r trefniadau Awdurdod Sylfaenol ar gael ar y rhyngrwyd yn:
https://www.gov.uk/government/publications/primary-authority-overview

3.21 Hefyd, bydd y troseddau oed gwerthu a phrynu ar ran rhywun o dan 18 oed yn cael eu hychwanegu at y rhestr o droseddau yn Neddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. Bydd hyn yn galluogi swyddogion gorfodi awdurdodau lleol i wneud cais i ddefnyddio “gwyliadwraeth gyfeiriedig” i hwyluso gwaith gorfodi effeithiol, yn amodol ar drefniadau diogelu presennol. Mae gwyliadwraeth gyfeiriedig yn golygu gwyliadwraeth gudd sy’n debygol o gasglu gwybodaeth breifat.

# 4. Cwmpas tiriogaethol y rheoliadau

4.1 Byddai’r rheoliadau’n berthnasol i Gymru a Lloegr yn unig.

# 5. Asesu’r effaith

5.1 Mae asesiad effaith ar gyfer cyfnod yr ymgynghoriad wedi ei baratoi a bydd yn cael ei gyhoeddi gyda’r ddogfen ymgynghori hon. Mae nifer o gwestiynau ar gyfer yr

ymgynghoriad sy'n ymwneud yn benodol â'r asesiad effaith yn **Atodiad** B. Byddem yn croesawu sylwadau ynglŷn â'r asesiad effaith ac unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth ychwanegol a fyddai'n ein galluogi i ymhelaethu ar yr asesiad effaith.

5.2 Rydym hefyd wedi cyhoeddi asesiad cychwynnol o'r effaith ar gydraddoldeb, a gyhoeddir gyda'r ddogfen ymgynghori hon, ac rydym yn croesawu unrhyw wybodaeth ychwanegol ynghylch sut y gall y cynigion hyn ein cynorthwyo i fodloni ein dyletswyddau Sector Cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.[16]

# 6. Sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad

6.1 Mae cwestiynau'r ymgynghoriad wedi eu rhestru yn **Atodiad** B. Cynhelir yr ymgynghoriad dros gyfnod o 6 wythnos, o 17 **Rhagfyr** 2014 hyd 23:45 ar 28 **Ionawr** 2014. Rydym yn croesawu ymatebion gan unrhyw unigolyn, sefydliad neu fusnes sydd â buddiant.

6.2 Anogir pobl sy'n ymateb i nodi eu safbwyntiau ar-lein ond gellir cyflwyno ymatebion mewn unrhyw un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi'r ffurflen ar-lein yn: http://consultations.dh.gov.uk/tobacco/age-of-sale-for-nicotine-products
- Llenwi'r ffurflen ymatebion trwy ei lawrlwytho yn: **www.gov.uk/government/consultations**
- Anfon eich ymateb mewn e-bost at: nicotineproductsageofsale@dh.gsi.gov.uk
- Anfon eich ymateb trwy'r post at:

Age of Sale Consultation
Department of Health
6th Floor, Wellington House
133-155 Waterloo Road
London
SE1 8UG

6.3 Diben yr ymgynghoriad hwn yw casglu safbwyntiau pobl, sefydliadau a busnesau sydd â buddiant ynglŷn â'r rheoliadau drafft i gyflwyno gofynion oed gwerthu ar gyfer cynhyrchion anadlu nicotin a sut y byddai'r darpariaethau hyn yn gweithio'n ymarferol. Rydym yn gofyn i chi ddarparu cyfeiriadau at waith ymchwil neu dystiolaeth arall gyda'ch ymatebion.

6.4 Os ydych yn dymuno cael copi o'r ddogfen ymgynghori hon ar fformat arall, neu os oes angen i chi ymateb ar ffurf wahanol am resymau hygyrchedd, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post a nodir ym mharagraff 6.2.

6.5 Ni fydd yr Adran Iechyd yn gallu ymateb yn benodol i ymatebion unigol i'r ymgynghoriad.

# 7. Datganiad o gysylltiadau uniongyrchol neu anuniongyrchol â'r diwydiant tybaco gan ymatebwyr

7.1 Gan fod y Deyrnas Unedig wedi llofnodi Confensiwn Fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd ar Reoli Tybaco, mae ganddi rwymedigaeth i amddiffyn datblygiad polisïau iechyd y cyhoedd rhag buddiannau'r diwydiant tybaco. I fodloni'r rhwymedigaeth hon, gofynnwn i bob ymatebwr ddatgelu a oes ganddo unrhyw gysylltiadau uniongyrchol neu anuniongyrchol â'r diwydiant tybaco, neu a yw'n derbyn cyllid gan y diwydiant hwnnw. Byddwn yn parhau i ystyried yn ofalus yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad gan y diwydiant tybaco a chan bobl sydd â chysylltiadau â'r diwydiant hwnnw, a byddwn yn eu cynnwys yn y crynodeb a gyhoeddir o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

# 8. Y camau nesaf

8.1 Byddwn yn ystyried yn ofalus yr holl ymatebion a dderbynnir erbyn 23:45 ar y dyddiad cau sef 28 Ionawr 2015. Cyhoeddir adroddiad cryno ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar wefan yr Adran Iechyd maes o law, ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad.

8.2 Gwneir penderfyniad terfynol ynglŷn â chynnwys y rheoliadau. Yn amodol ar gymeradwyaeth Seneddol, ein bwriad yw i'r rheoliadau ddod i rym yn 2015.

# 9. Sylwadau am y broses ymgynghori ei hun

9.1 Os oes gennych unrhyw bryderon neu sylwadau yr hoffech eu nodi sy'n ymwneud yn benodol â'r broses ymgynghori ei hun cysylltwch â

Consultations Coordinator
Department of Health
2E26, Quarry House
Leeds
LS2 7UE

e-bost: **consultations.co-ordinator@dh.gsi.gov.uk**

9.2 Peidiwch ag anfon ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad hwn.

# 10. Cyfrinachedd gwybodaeth

10.1 Byddwn yn rheoli'r wybodaeth a ddarparwch i'r ymgynghoriad hwn yn unol â Siarter Wybodaeth yr Adran Iechyd.[17]

10.2 Sylwer bod Cod Ymarfer statudol, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, y mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef, ac mae hwn yn ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd. Os ydych am i'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu inni gael ei chadw'n gyfrinachol, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio wrthym pam yr ydych yn ystyried bod y wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi inni yn gyfrinachol. Os derbyniwn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir ei chadw'n gyfrinachol ym mhob achos. Nid ystyrir bod yr ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gaiff ei greu gan eich system TG, ynddo'i hun, yn rhwymo'r Adran.

10.3 Bydd yr Adran yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac yn y rhan fwyaf o amgylchiadau bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael eu datgelu i drydydd parti.

# Atodiad A

## Rheoliadau drafft i'w gwneud o dan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014

*Draft Regulations laid before Parliament under section 135(6) of the Children and Families Act 2014, for approval by resolution of each House of Parliament.*

D R A F T   S T A T U T O R Y   I N S T R U M E N T S

**20xx No.xxx**

**PUBLIC HEALTH, ENGLAND AND WALES**

The Nicotine Inhaling Products (Age of Sale and Proxy Purchasing) Regulations 20xx

| | |
|---|---|
| *Made* - - - - | *** |
| *Coming into force* | |
| *Regulations 1 and 2* | **…** |
| *Regulations 3 to 6* | … |

The Secretary of State makes the following regulations in exercise of the powers conferred by sections 92(1), (6) and (7) and 93(8) of the Children and Families Act 2014(**18**).

In accordance with section 135(6) of that Act, a draft of this instrument has been laid before Parliament and approved by resolution of each House of Parliament.

In accordance with section 92(8) of that Act, the Secretary of State makes this instrument with the consent of the Welsh Ministers.

**Citation, commencement and interpretation**

**1.**—(1) These Regulations may be cited as the Nicotine Inhaling Products (Age of Sale and Proxy Purchasing) Regulations 2014.

(2) Regulations 1 and 2 come into force on ….

(3) Regulations 3 to 6 come into force on …..

(4) In these Regulations—

"marketing authorisation" has the meaning given by regulation 8(1) of the Human Medicines Regulations 2012(**19**);

(**18**) 2014 c.6. See section 92(12) for the meaning of "specified".
(**19**) S.I. 2012/1916. Relevant amendments were made by S.I. 2013/235, 1855, 2593, 2014/490, 1878.

Department of Health

“medical device” has the meaning given by regulation 2(1) of the Medical Devices Regulations 2002(**3**);

“medicinal product” has the meaning given by regulation 2(1) of the Human Medicines Regulations 2012;

“nicotine cartridge” means a cartridge which—

(a) contains a substance which is not tobacco but consists of, or contains, nicotine; and

(b) is intended to form part of a nicotine inhaling device;

“nicotine inhaling device” means a device which—

(a) is intended to enable nicotine to be inhaled through a mouth piece (regardless of whether the device is also intended to enable any other substance to be inhaled through a mouth piece); but

(b) is not tobacco(**4**), cigarette papers or a device intended for the consumption of lit tobacco;

“nicotine inhaling product” means a nicotine inhaling device, nicotine cartridge or nicotine refill substance;

“nicotine refill substance” means a substance which—

(c) is not tobacco but consists of or contains nicotine; and

(d) is intended to be used to refill a nicotine inhaling device;

“parallel import licence” has the meaning given by regulation 48(2) of the Human Medicines Regulations 2012;

“prescription only medicine” has the meaning given by regulation 8(1) of the Human Medicines Regulations 2012.

**Proxy purchase of nicotine products**

**2.**—(1) Section 91 of the Children and Families Act 2014 (purchase of tobacco etc. on behalf of persons under 18) is amended in accordance with paragraphs (2) to (4).

(2) In the heading, before “etc.” insert “nicotine products”.

(3) In subsection (1), for “or cigarette papers” substitute “cigarette papers or a relevant nicotine product”.

(4) After subsection (7) add—

> “(8) In this section “relevant nicotine product” means a nicotine product within the meaning of section 92 the sale of which at the same time and in the same circumstances to the individual aged under 18 would be prohibited by regulations for the time being in force under subsection (1) of that section.”

**Prohibition of sale of nicotine inhaling products to persons aged under 18**

**3.** — The sale of nicotine inhaling products to persons aged under 18 is prohibited, except where regulation 4 or 5 applies.

**Exception for sales of medicines and medical devices in accordance with a prescription etc.**

**4.**—(1) This regulation applies to the sale of a nicotine inhaling product where—

(a) the nicotine inhaling product is a medicinal product or a medical device; and

(b) the circumstances of the sale are such that it would be permitted under Part 12 of the Human Medicines Regulations 2012 (dealings with medicinal products) if the nicotine inhaling product were a prescription only medicine.

(2) For the purposes of sub-paragraph (1)(b), Part 12 of the Human Medicines Regulations 2012 is to be read as if regulation 244 (exemption in cases involving another’s default) were omitted.

(3) S.I. 2002/618. Relevant amendments were made by S.I 2008/2936.

(**4**) See the definition of “tobacco” at section 92(12) of the Children and Families Act 2014.

**Exception for medicines indicated for the treatment of persons aged under 18**

**5.**—(1) — This regulation applies to the sale of a nicotine inhaling product which—

(a) is an authorised medicinal product; and

(b) is indicated for the treatment of persons of the age of the person to whom the product is sold.

(2) For the purposes of this regulation—

(a) a product is indicated for the treatment of persons of a particular age if that indication is described in the summary of the product characteristics for the product in accordance with paragraph 27 of Schedule 8 to the Human Medicines Regulations 2012 (summary of the product characteristics) or Article 11 of Directive 2001/83/EC(**5**);

(b) "the summary of the product characteristics" is to be construed in accordance with Article 11 of Directive 2001/83/EC;

(c) a medicinal product is "authorised" if one of the following is in force for the product—

(i) a marketing authorisation; or

(ii) a parallel import licence.

**Amendment of Schedule 3 to the Regulatory Enforcement and Sanctions Act 2008**

**6.** — In Schedule 3(**6**) to the Regulatory Enforcement and Sanctions Act 2008(**7**) (enactments specified for the purposes of Part 1), at the appropriate place insert—

"Children and Families Act 2014 (c.6), section 92".

Signed by authority of the Secretary of State

(**5**) Directive 2001/83/EC of the European Parliament and of the Council of 6 November 2001 on the Community code relating to medicinal products for human use. OJ No L 311, 28.11.2001

(**6**) Schedule 3 was amended by Part 4 of Schedule 22 to the Marine and Costal Access Act 2009 (c.23), paragraphs 97 and 99 of Schedule 26 and Part 1 of Schedule 27 to the Equality Act 2010 (c. 15) (as amended by SI 2010/2279, Schedule 1, paragraph 6 and Schedule 2), paragraph 130 of Schedule 7 to the Charities Act 2011 (c. 25), paragraph 4(1) and (2) of Schedule 6 and Part 1 of Schedule 8 to S.I. 2010/2960, section 19(2) of the Scrap Metal Dealers Act 2013 (c.10), paragraphs 12 and 13 of Part 1 of the Schedule to S.I. 2013/1575, regulation 2 of S.I. 2013/2215 and paragraph 10 of Schedule 4 to the Mobile Homes (Wales) Act 2013 (anaw 6).

(**7**) 2008 c.13.

# Atodiad B

## Cwestiynau'r ymgynghoriad ynglŷn â'r rheoliadau arfaethedig a'r asesiad o'r effaith ar fusnesau

1. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynglŷn â'r diffiniad o gynhyrchion anadlu nicotin a gynigir yn y rheoliadau?
2. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cynigion ar gyfer cynhyrchion anadlu nicotin sy'n feddyginiaethau neu'n ddyfeisiau meddygol?
3. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynglŷn â'r trefniadau gorfodi a gynigir yn y rheoliadau, neu unrhyw sylwadau neu dystiolaeth ynglŷn â chostau gorfodi?
4. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cynnig i ymestyn y drosedd bresennol o brynu tybaco ar ran rhywun, i gwmpasu cynhyrchion anadlu nicotin?
5. A oes gennych chi unrhyw dystiolaeth ychwanegol ynglŷn â'r defnydd o e-sigaréts gan blant o dan 18 oed fel porth i ddechrau ysmygu neu i roi'r gorau i ysmygu? Er enghraifft, sut y byddai lleiafswm oed ar gyfer gwerthu e-sigaréts yn effeithio ar bobl o dan 18 oed sydd eisoes yn eu defnyddio?
6. A oes gennych chi unrhyw dystiolaeth ychwanegol y byddai cyfyngu ar oed gwerthu cynhyrchion anadlu nicotin yn cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd a/neu yn ein cynorthwyo i gyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?
7. A oes gennych chi unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth a fyddai'n cyfrannu at asesiad effaith y cyfnod ymgynghori? Rydym yn croesawu'n benodol unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth a fyddai'n gwella unrhyw un o'r tybiaethau neu amcangyfrifon yr ydym wedi eu gwneud o ran yr effaith ar fanwerthwyr, gwneuthurwyr a dosbarthwyr, gan gynnwys ein hasesiad o unrhyw elw y byddent yn ei golli.
8. A oes gennych unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth a fyddai'n gwella unrhyw un o'r tybiaethau yr ydym wedi eu gwneud ynghylch effaith y rheoliadau arfaethedig hyn ar fusnesau bach a busnesau micro?
9. A oes unrhyw beth arall yr ydych am ei nodi wrthym a fyddai, yn eich barn chi, yn gwella'r rheoliadau drafft?

[1] Britton, J. a Bogdanovica, I. (2014). *Electronic cigarettes: A report commissioned by Public Health England*. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/311887/Ecigarettes_report.pdf

[2] Action on Smoking and Health (2014). *ASH briefing: E-cigarettes.* Ar gael yn: http://www.ash.org.uk/files/documents/ASH_715.pdf

[3] Y Llyfrfa (2012). Human Medicines Regulations 2012 (OS 2012/1916)

[4] Action on Smoking and Health (2014). ASH briefing: Use of electronic cigarettes in Great Britain. Ar gael yn: http://www.ash.org.uk/files/documents/ASH_891.pdf

[5] Llywodraeth Cymru (2014) *Dod i gysylltiad â mwg ail-law mewn ceir a'r defnydd a wna plant 10-11 mlwydd oed Cymru o e-sigaréts: adroddiad canfyddiadau allweddol CHETS Cymru 2*.

[6] Hardcastle, K. a Bennett, A. (2014). *"Most people I know have got one": Young people's perceptions and experiences of electronic cigarettes*. Canolfan Iechyd y Cyhoedd Prifysgol Liverpool John Moores, Lerpwl.

[7] Juang, J. et al. (2014). "A cross-sectional examination of marketing of electronic cigarettes on Twitter" yn *Tobacco Control* 2014; 23, t.iii26-iii30.

[8] Hardcastle, K. a Bennett, A. (2014). *"Most people I know have got one": Young people's perceptions and experiences of electronic cigarettes*. Canolfan iechyd y Cyhoedd Prifysgol Liverpool John Moores, Lerpwl.

[9] Davies, S. (2013). *Annual Report of the Chief Medical Officer 2012 - Our Children Deserve Better: Prevention Pays*. Adran Iechyd, Llundain. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/255237/2901304_CMO_complete_low_res_accessible.pdf

[10] Coleg Brenhinol y Ffisigwyr. (2007). *Harm Reduction in Nicotine Addiction : Helping People who can't quit*. Coleg Brenhinol y Ffisigwyr, Llundain.

[11] Gervais, A., et al. (2006). "Milestones in the natural course of onset of cigarette use among adolescents". Canadian Medical Association Journal. 175(3), t.255-261.

[12] Counotte, D. et al. (2011). "Development of the motivational system during adolescence, and its sensitivity to disruption by nicotine" yn *Developmental Cognitive Neuroscience;* 2011; 1 (2011), t.430-443.

[13] Dutra, L. a Glantz, S. (2014). "Electronic Cigarettes and Conventional Cigarette Use Among US Adolescents A Cross-sectional Study" yn *JAMA Pediatrics* 2014; 168(7), t.610-617.

[14] Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/6/section/92

[15] Mae gwerth y ddirwy ar lefel 4 yn hyd at £2,500 ar hyn o bryd.

[16] Rhaid i gyrff sy'n ddarostynedig i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb, wrth ddarparu eu gwasanaethau a chyflawni eu swyddogaethau, roi ystyriaeth briodol i'r angen i:

- Ddiddymu achosion o wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig benodol a phobl nad ydynt yn ei rhannu; a
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig benodol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn cwmpasu nodweddion gwarchodedig oed, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil (gan gynnwys tarddiad ethnig neu wlad wreiddiol, lliw neu genedligrwydd), crefydd neu gredo (gan gynnwys dim crefydd), rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae hefyd yn berthnasol i statws priodasol a phartneriaeth sifil, ond ynglŷn â'r gofyniad i roi ystyriaeth briodol i'r angen i ddiddymu gwahaniaethu yn unig.

17 Ar gael yn:www.gov.uk/government/organisations/department-of-health/about/personal-information-charter